

## Hawliau plant yn y Deyrnas Unedig yng nghyd-destun pandemig COVID-19<sup>1</sup>

**Ar draws y Deyrnas Unedig**, mae pandemig Covid-19 yn parhau i gael effeithiau tymor byr, canolig a hir ar hawliau plant i gael addysg, iechyd, goroesi a datblygu, safon byw digonol, chwarae, rhyddid i gymdeithasu, bwyd, amddiffyniad rhag trais, camdriniaeth ac esgeuluso, a diwylliant. Mae wedi gwaethygu anghydraddoldebau presennol, megis tlodi plant, ansicrwydd bwyd, anghydraddoldebau addysg, a iechyd meddwl.

Ym mis Mawrth 2020, rhoddodd y Deyrnas Unedig ymateb brys ar waith i gadw Covid-19 dan reolaeth, gan gynnwys Deddf y Coronafeirws ar draws y Deyrnas Unedig.<sup>2</sup> Bu'r llywodraethau yn rhoi mesurau cyfnod clo ar waith, heb ganiatáu unrhyw symudiadau y tu allan i'r cartref ac eithrio o dan amgylchiadau cyfyngedig. Er i'r eithriadau hyn gael eu llacio rhywfaint, parhaodd y cyfnod clo am rai misoedd. Gosododd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig gyfyngiadau amrywiol, am gyfnodau byrrach, o fis Medi 2020 i reoli'r feirws.

### Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu (Erthyglau 2, 3, 4, 12, 23, 24, 28, 29)

Mae'r cyfyngiadau wedi cael effaith anghymesur ar rai grwpiau, gan gynnwys plant sy'n dioddef effaith tlodi a phlant ag anabledd. Yn ôl arolwg o fwy na 23,700 o blant yng **Nghymru**, cafodd plant anabl brofiad sylweddol waeth yn y cyfnod clo, oherwydd bod busnesau neu wasanaethau ar gau, bod angen cymorth ychwanegol gyda dysgu digidol, bod oedi yn achos asesiadau o angen a diffyg mynediad cyfartal at wasanaethau addysgol, proffesiynol neu arbenigol.<sup>3</sup> Gwelwyd enghreifftiau eraill o'r profiad hwn ar draws y Deyrnas Unedig.

Profodd plant ag AAA ac anableddau ar draws y **Deyrnas Unedig** ostyngiadau sylweddol o ran eu mynediad at wasanaethau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.<sup>4</sup> Ymhlith y pryderon mae dychwelyd i'r ysgol oherwydd Covid-19, diffyg cefnogaeth, neu gael eu gwahardd os nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, nid oedd 76% o deuluoedd bellach yn derbyn cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol, e.e. gofal seibiant.<sup>5</sup> Roedd rhai cynghorau'n cynnig taliadau uniongyrchol yn lle, ond ni allai teuluoedd gael hyd i wasanaethau i ddarparu cefnogaeth.

### Gwneud penderfyniadau, Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant (CRIAs) a chyfranogiad (Erthyglau 2, 3, 4, 12, 24, 28, 29)

Mae'r pandemig wedi dangos bod angen proses CRIA strwythuredig, gan fod ymatebion y llywodraeth yn aml wedi diystyru hawliau plant. Gwnaed sawl penderfyniad oedd yn effeithio ar blant heb gyhoeddi CRIA, gan gynnwys cau ysgolion a chefnogaeth i addysg, penderfyniadau cysylltiedig â gofal plant, a chyfyngiadau ar gyswllt teuluol. Oherwydd bod **llywodraeth yr Alban** heb gynnal CRIA ar gychwyn y pandemig, comisiynodd CYPCS CRIA annibynnol ar ymateb y wladwriaeth i Covid-19, oedd yn cwmpasu'r meysydd allweddol a nodwyd yn natganiad y Pwyllgor yn Ebrill 2020.<sup>6</sup>

<sup>1</sup> Atodiad i Adroddiad Comisiynwyr Plant y Deyrnas Unedig i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn: Archwiliad o Chweched a Seithfed Adroddiad Cyfnodol Cyfunedig Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Rhagfyr 2020.

<sup>2</sup> *Deddf y Coronafeirws 2020* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/7/enacted>

<sup>3</sup> CPC, 2020, *Coronafeirws a Fi: Profiadau Plant Anabl* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/experiences-of-disabled-children/>

<sup>4</sup> Education Committee, 2020, *Oral Evidence: The Impact of Covid-19 on Education and Children's Services*. Ar gael o: <https://committees.parliament.uk/oralevidence/627/pdf/> CCE, 2020, *Supporting Children with Special Educational Needs and Disabilities to Return to School*. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/08/31/supporting-children-with-special-educational-needs-and-disabilities-to-return-to-school/> [gwelwyd y ddau ar 09.12.20].

<sup>5</sup> Disabled Children's Partnership, 2020, *#LeftInLockdown - Parent Carers' Experiences of Lockdown* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://disabledchildrenspartnership.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/LeftInLockdown-Parent-carers%E2%80%99-experiences-of-lockdown-June-2020.pdf>

<sup>6</sup> Cynhaliwyd gan the Observatory of Children's Human Rights Scotland, 2020, *Independent Children's Rights Impact Assessment on the Response to Covid-19 in Scotland* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://cypcs.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/independent-cria.pdf>

Roedd diffyg ymgysylltiad rhwng llunwyr penderfyniadau a phlant ar draws y **Deyrnas Unedig** yn yr ymatebion i Covid-19. Yn ystod y cyfnod eithriadol anghyffredin hwn, dylai llunwyr penderfyniadau fod wedi ymgysylltu â phlant ac ystyried eu barn. Ar adegau roedd barn plant yn gwbl absennol wrth wneud penderfyniadau; mater a gydnabuwyd gan y Llys Apêl mewn dyfarniad diweddar.<sup>7</sup>

### **Amddiffyn plant rhag trais, camdriniaeth ac esgeuluso (Erthyglau 2, 3, 12, 19, 28, 29, 24, 37)**

Gyda'r ysgolion ar gau, a gwasanaethau eraill yn gweithredu'n rhithwir, os o gwbl, daeth llawer o blant mewn sefyllfaoedd bregus yn llai gweladwy i'r gwasanaethau hynny a luniwyd i'w hamddiffyn a'u cefnogi. Adroddodd Childline fod cynnydd o 22% yn y sesiynau cwnsela ynghylch cam-drin plant, a chynnydd o 53% gan bobl oedd â phryderon ynghylch plant yn dioddef camdriniaeth gorfforol, o gymharu Ebrill-Gorffennaf 2020 â Ionawr-Mawrth 2020.<sup>8</sup>

Ym **mhob awdurdodaeth**, parhaodd ymweliadau amddiffyn plant yn bersonol yn bennaf lle roedd angen, tra bod ymweliadau rhithwir wedi cael eu cynnal i eraill. Gostyngodd y cyfraddau atgyfeirio ar gyfer amddiffyn plant a chefnogaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ar ddechrau'r pandemig, oherwydd diffyg cyswllt gan wasanaethau cyffredinol, teuluoedd estynedig, neu'r gymuned leol, a allai sylwi ar faterion.

### **Addysg (Erthyglau 2, 3, 12, 28, 29)**

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, gwaethygydd anghydraddoldeb addysgol trwy gau ysgolion. Roedd llawer o blant, yn arbennig o gefndir sosio-economaidd is, heb ddyfais ddigidol o gwbl ar hyd y cyfnod clo cyntaf, ac yn methu cael mynediad i ddysgu i raddau helaeth. Roedd cysondeb a safon profiadau dysgu plant yn amrywio ar draws ysgolion a lleoliadau.<sup>9</sup> Mae cau'r ysgolion ac atal cefnogaeth i ddisgyblion a gwasanaethau eraill hanfodol wedi effeithio ar blant ag AAA, ACY, ac anabledau, gan waethygu'r materion systemig yr oedd y plant hynny yn eu hwynebu cyn y pandemig. Mae angen diwygio er mwyn sicrhau bod modd i'r plant hyn gael mynediad i gefnogaeth a gwasanaethau priodol, effeithiol ac amserol. Ar ôl chwe mis heb ysgol gadawyd dysgwyr oedd o dan anfantais, yn arbennig, mewn perygl o golli tir ar draws y **Deyrnas Unedig**. Mae plant ag anabledau a'r rhai sydd wedi profi trawma yn fwy tebygol o arddangos ymddygiad heriol wrth ddychwelyd, cael trafferth i ddal i fyny, neu roi'r gorau iddi.

Ym **mhob awdurdodaeth**, mae'r dysgu cyfunedig/o bell a gynigiwyd wedi bod yn anghyson mewn gwahanol leoliadau. Darparwyd cyllid i awdurdodau lleol i gefnogi dosbarthiad dyfeisiau digidol a sicrhau bod teuluoedd yn cael mynediad i fand eang da, ond mae'r rhaniad digidol yn parhau.

**Ar draws y Deyrnas Unedig**, cafodd arholiadau ysgol uwchradd eu canslo ym mlwyddyn 2019/2020, a dyfarnwyd graddau i'r myfyrwyr ar sail amcangyfrifon athrawon, wedi'u cymedroli gan algorithmau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur. Ar ôl protestiadau helaeth, newidiwyd y canlyniadau i'r graddau a amcangyfrifwyd gan athrawon. Profodd y myfyrwyr heriau gan nad oedd oedd mynediad uniongyrchol i brosesau apêl os oedden nhw'n anghytuno â'r radd a amcangyfrifwyd.

**Ar draws pob awdurdodaeth**, ers i'r ysgolion ailagor ym mis Awst/Medi, mae rhai plant wedi gorfod ynysu gartref oherwydd eu bod wedi dal Covid-19 neu wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd â'r haint, gan amharu ar eu dysgu. Yng **Nghymru a'r Alban**, mae'r arholiadau ysgol uwchradd ar gyfer pob cymhwyster cenedlaethol wedi cael eu canslo yn 2020/2021.

<sup>7</sup> Y Llys Apêl, *The Queen (Appellant) (on the application of Article 39) and Secretary of State for Education (Respondent)*, 24 Tachwedd 2020, Achos Rhif: C1/2020/1279 [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/11/R-Article-39-v-SSE-judgment.pdf>

<sup>8</sup> NSPCC, 2020, *The Impact of the Coronavirus Pandemic on Child Welfare: Physical Abuse* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/media/2292/impact-of-coronavirus-pandemic-on-child-welfare-physical-abuse.pdf>

<sup>9</sup> NICCY, 2020, *A Child's Right to Education and Covid-19* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.niccy.org/publications/2020/june/22/a-child-s-right-to-education-and-covid-19/>

## Tlodi (Erthyglau 2, 3, 4, 6, 12, 24, 26, 27, 28, 29)

**Ar draws y Deyrnas Unedig**, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar blant sy'n byw mewn tlodi, gan wreiddio tlodi ac effeithiau hirdymor yn ddyfnach. Amcangyfrifir bod 300,000 o blant wedi cael eu gwthio i dlodi oherwydd Covid-19.<sup>10</sup> Mae miliynau o blant mewn aelwydydd lle cafodd rhieni ostyngiad yn eu horiau gwaith, lle buont ar ffyrlo<sup>11</sup> neu lle collwyd eu swyddi.<sup>12</sup> Mae'r pandemig wedi dangos bod modd ariannu mesurau lliniaru tlodi yn gyflym. Cafodd rhyw 100,000 o blant mewn tlodi eu cynorthwyo gan fentrau polisi amser-gyfyngedig,<sup>13</sup> megis cynyddu'r Credyd Cynhwysol (CC), gwyrddroi'r toriadau i'r Lwfans Tai Lleol<sup>14</sup> a diogelu incwm trwy'r Cynllun Cadw Swyddi.<sup>15</sup> Ond er gwaethaf hynny, bu'n rhaid i bron ddau draean o'r teuluoedd ar CC fenthyg arian i oroesi, ac mae hanner ohonynt ar ei hôl hi gyda'u taliadau rhent a biliau eraill hanfodol.<sup>16</sup>

## Ansicrwydd bwyd (Erthyglau 2, 3, 4, 6, 12, 24, 27)

Mae'r pandemig wedi ychwanegu at ansicrwydd bwyd plant, gyda chynnydd o 52% yn y parseli bwyd argyfwng a ddosbarthwyd rhwng Ebrill a Medi 2020.<sup>17</sup> Yn **Lloegr**, un mis wedi i'r ysgolion gau, dim ond 47% o'r plant sydd fel arfer yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim oedd wedi derbyn prydau neu dalebau.<sup>18</sup> Yn **yr Alban**, er bod dewisiadau amgen ar ffurf prydau bwyd eraill, arian yn eu lle neu dalebau bwyd, roedd eu dosbarthu'n anghyson, yn arbennig argaeledd taliadau uniongyrchol. Roedd nifer y rhieni oedd yn manteisio ar hyn yn cynyddu os oedd y ddarpariaeth ar ffurf taliad ariannol. Roedd gwerth yr hyn oedd yn cael ei gynnig yn lle'r pryd yn amrywio ar draws awdurdodau lleol (o £10-20)<sup>19</sup> yr wythnos.<sup>20</sup>

Roedd cynnydd o 101% yn nifer y plant a gafodd eu bwydo trwy fanciau bwyd yng **Nghymru** ym mis Ebrill 2020.<sup>21</sup> Roedd ymatebwyr BAME yn sylweddol fwy tebygol o bryderu ynghylch bod â digon o fwyd.<sup>22</sup> Darparodd **llywodraeth Cymru** gyllid o ddiwedd mis Ebrill i awdurdodau lleol ddarparu prydau ysgol am ddim mewn cymunedau nes bod y plant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi,<sup>23</sup> a chyrrhaeddwyd 7,600 o blant eraill trwy'r rhaglen newyn gwyliau yn yr haf.<sup>24</sup> Mae hyn wedi cael ei estyn yn ystod gwyliau'r ysgol

<sup>10</sup> Joseph Rowntree Foundation, 2020, *Nearly Two-Thirds of Families on Universal Credit Forced into Lockdown Debt 'Nightmare'* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.jrf.org.uk/press/nearly-two-thirds-families-universal-credit-forced-lockdown-debt-%E2%80%98nightmare%E2%80%99>

<sup>11</sup> Mae Cynllun Cadw Swyddi'r Coronafeirws yn caniatáu i gyflogwyr roi staff ar absenoldeb dros dro – neu ffyrlo – ar 80% o'u hincwm. Mae'r cynllun hwn yn ei le tan 31 Mawrth 2021, a bydd yn cael ei adolygu ym mis Ionawr 2021. Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), 2020, *Check if You Can Claim for Your Employees' Wages through the Coronavirus Job Retention Scheme* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.gov.uk/government/publications/extension-to-the-coronavirus-job-retention-scheme/extension-of-the-coronavirus-job-retention-scheme>

<sup>12</sup> CCE. 2020, *Fact Checking Claims about Poverty* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o:

<https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/06/22/fact-checking-claims-about-child-poverty/>

<sup>13</sup> Mae'r diogelwch ariannol ychwanegol a ddarparwyd gan y cynllun ffyrlo estynedig a'r ychwanegiad i'r Credyd Cynhwysol yn eu lle tan fis Mawrth 2021.

<sup>14</sup> Institute for Public Policy Research, 2020, *Estimating Poverty Impacts of Coronavirus: Microsimulation Estimates* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.ippr.org/research/publications/estimating-poverty-impacts-of-coronavirus>

<sup>15</sup> Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), 2020, *Check if You Can Claim for Your Employees' Wages through the Coronavirus Job Retention Scheme*.

<sup>16</sup> Joseph Rowntree Foundation, 2020, *Nearly Two-Thirds of Families on Universal Credit Forced into Lockdown Debt 'Nightmare.'*

<sup>17</sup> Lloegr = 396,395 (cynnydd o 62.6% ers yr un cyfnod yn 2019 – 396,395 o barseli), Yr Alban = 37,125 (cynnydd o 0.7% ers yr un cyfnod yn 2019 – 36,879 o barseli), Cymru = 25,475 (cynnydd o 20.6% ers yr un cyfnod yn 2019 – 21,130 o barseli), a Gogledd Iwerddon = 11,859 (cynnydd o 59.9% ers yr un cyfnod yn 2019 – 7,416 o barseli).

<sup>18</sup> CCE, 2020, *Childhood in the Time of Covid* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/09/cco-childhood-in-the-time-of-covid.pdf>

<sup>19</sup> Tua 13.30 – 26.56 USD (Tachwedd 2020).

<sup>20</sup> LAMBIE-MUMFORD, H., LOOPSTRA, R., and GORDON, K., 2020, *Mapping Responses to Risk of Rising Food Insecurity during the Covid-19 Crisis across the UK* [gwelwyd ar 04.12.20]. Ar gael o: <http://speri.dept.shef.ac.uk/wp-content/uploads/2020/08/Food-Vulnerability-During-COVID-19-first-project-report.pdf>

<sup>21</sup> The Trussell Trust, 2020, *Summary Findings on the Impact of the Covid-19 Crisis on Food Banks* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: [https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/06/APRIL-Data-briefing\\_external.pdf](https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2020/06/APRIL-Data-briefing_external.pdf)

<sup>22</sup> CPC, 2020, *Coronafeirws a Fi: Profiadau Plant o Gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-bame-children/>

<sup>23</sup> Llywodraeth Cymru, 2020, *Wales was the First Country in the UK to Guarantee Ongoing Funding for Children for Free School Meals during the Pandemic* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://gov.wales/wales-has-become-first-country-uk-guarantee-ongoing-funding-children-continue-receive-free-school>

<sup>24</sup> Food Foundation, 2020, *A Year of Children's Food: A Progress Review of Policy on Children's Food and Nutrition across the Four UK Nations 2019-2020* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: [https://foodfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/CR2F\\_ProgressBriefing\\_DIGITAL-1.pdf](https://foodfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/CR2F_ProgressBriefing_DIGITAL-1.pdf)

hyd at y Pasg 2021.<sup>25</sup> Hwn oedd y tro cyntaf i'r cyllid hwn gael ei ddarparu ar gyfer holl gyfnod y gwyliau. Y cyllid yng Nghymru oedd yr uchaf yng ngwledydd y Deyrnas Unedig, £19.50<sup>26</sup> y plentyn yr wythnos, gan ei fod yn cynnwys £1 y dydd ar gyfer brecwast.

Cynyddodd y defnydd o fanciau bwyd yng **Ngogledd Iwerddon** 79.6% rhwng Ebrill a Medi 2020 o gymharu â'r un cyfnod yn 2019, a 128% ym mis Ebrill 2020.<sup>27</sup> Mae cynlluniau'r llywodraeth i sicrhau bod aelwydydd bregus yn cael mynediad at fwyd yn cynnwys taliadau i deuluoedd lle mae'r plant yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim tra bod y plant yn methu mynd i'r ysgol, ac yn estyn dros wyliau'r ysgol hyd at fis Ebrill 2022.

### **Y safon iechyd uchaf sy'n gyraeddadwy (Erthyglau 2, 3, 6, 12, 23, 24, 27)**

Er bod gwasanaethau gofal iechyd gan mwyaf wedi parhau ar gael i blant yn ystod y pandemig, mewn llawer o achosion newidiodd mynediad i'r gwasanaethau hyn a'u darpariaeth. **Ar draws y Deyrnas Unedig**, mae effaith pwysau ar y GIG a chyswllt cyfyngedig wyneb yn wyneb yn destun pryder. Cyfyngwyd yn ddifrifol ar fynediad plant â chyflyrau iechyd parhaus neu anabledau i wasanaethau, ac mae'r effaith honno'n parhau. Mae'n rhaid i'r awdurdodau warantu lefelau diogel o ofal pediatrig, gan gynnwys brechiadau, apwyntiadau meddygol, gweithdrefnau ac asesiadau rheolaidd, yn ystod argyfyngau.<sup>28</sup>

Mae plant a phobl ifanc a fu'n cyrchu gwasanaethau iechyd meddwl cyn y pandemig, ac wedi hynny, wedi sôn am wahaniaeth yn y gwasanaeth a gyflwynir, gyda llawer o ardaloedd yn darparu cefnogaeth iechyd meddwl ar-lein neu dros y ffôn yn unig. Mae ymchwil yn awgrymu bod symptomau iselder a gorbryder wedi cynyddu.<sup>29</sup> Mewn arolwg o fwy na 2,000 o bobl ifanc oedd â hanes o anghenion iechyd meddwl, ar draws y **Deyrnas Unedig**, dywedodd 80% fod y pandemig wedi gwneud eu hiechyd meddwl yn waeth, a dywedodd 41% ei fod yn "llawer gwaeth."<sup>30</sup> Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar staffio CAMHS cleifion mewnol, sydd wedi gorfod gweithredu gydag aelodau staff yn absennol oherwydd salwch neu ynysu.

Soniodd plant a phobl ifanc am fod heb hyder o ran gwybod ble i droi am help a chynghor, y tu hwnt i deulu a ffrindiau, yn ogystal â lefelau uwch o straen oherwydd eu bod gartref ac yn dysgu o bell. Dim ond 39% o'r plant oed ysgol uwchradd yng **Nghymru** oedd yn teimlo'n hyderus yn cael help gan gwnselwyr ysgol, er bod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau cwnsela i blant.<sup>31</sup> Roedd y profiad hwn i'w weld hefyd ar draws y **Deyrnas Unedig**.

### **Amddifadu o Ryddid (Erthyglau 2, 3, 12, 25, 28, 29, 31)**

Profodd plant a phobl ifanc yn **Lloegr, yr Alban a Chymru** ostyngiadau sylweddol yn eu mynediad at addysg a hamdden oherwydd cyfyngiadau mewn YOIs, oedd yn ychwanegu at bryderon ynghylch ynysu. Roedd plant yn rheolaidd yn treulio mwy na 20 awr y dydd yn gaeth i'w celloedd.<sup>32</sup> Profodd plant hefyd gyfnod estynedig heb gyswllt wyneb yn wyneb â'u teuluoedd, eu gweithwyr cymdeithasol, na'u

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru, 2020, *Marcus Rashford MBE backs Welsh Government Decision to Ensure Free School Meal Provisions for Every School Holiday until Easter 2021* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://gov.wales/marcus-rashford-mbe-backs-welsh-government-decision-ensure-free-school-meal-provisions-every-school>

<sup>26</sup> Tua 25.90 USD (Tachwedd 2020).

<sup>27</sup> The Trussell Trust, 2020, *Summary Findings on the Impact of the Covid-19 Crisis on Food Banks*.

<sup>28</sup> RCPCH, 2020, *The Impact of COVID-19 on Child Health Services - Report* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.rcpch.ac.uk/resources/impact-covid-19-child-health-services-tool-results>

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, 2020, *Review of the Impact of Mass Disruption on the Wellbeing and Mental Health of Children and Young People, and Possible Therapeutic Interventions* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://gov.wales/review-impact-mass-disruption-wellbeing-and-mental-health-children-and-young-people>

<sup>30</sup> YoungMinds, 2020, *Coronavirus: Impact on Young People with Mental Health Needs: COVID-19 summer 2020 survey* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://youngminds.org.uk/about-us/reports/coronavirus-impact-on-young-people-with-mental-health-needs/>

<sup>31</sup> CPC, 2020, *Canlyniadau Coronafeirws a Fi* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childcomwales.org.uk/coronavirus-our-work/coronavirus-and-me-results/>

<sup>32</sup> CCE, 2020, *Briefing: Children in Custody* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/05/cco-children-in-custody.pdf>

cyfreithwyr. Roedd addysg hefyd yn amrywio i blant ar wardiau iechyd meddwl. O fis Mawrth 2020, roedd cynllun wrth gefn Canolfan Cyfiawnder Ieuencid **Gogledd Iwerddon** ar gyfer Covid-19 yn cynnwys dod â'r holl weithgareddau addysgol a galwedigaethol i ben. Darparwyd pecynnau gwaith addysgol ar gyfer pob person ifanc, ond ni ddefnyddiwyd dim ohonynt. Nododd y staff ei fod yn anodd i bobl ifanc gael eu symbylu i weithio ar 'waith ysgol' y tu allan i'r dosbarth. Ailgychwynnodd addysg ar 13 Mai, er bod hynny ar gapasiti llai. **Ar draws y Deyrnas Unedig**, gwelwyd effaith negyddol ar wasanaethau eiriolaeth mewn wardiau iechyd meddwl a YOIs. Roedd gostyngiad yn nifer yr eiriolwyr oedd yn mynd i wardiau iechyd meddwl yn bersonol, ac mewn YOIs, cyflwynwyd gwasanaethau eiriolaeth o bell.<sup>33</sup>

Mae cyfnodau treigl ar gau oherwydd bod staff neu blant wedi cael prawf Covid-19 positif wedi effeithio ar blant mewn lleoliadau preswyl; caewyd lleoliadau i bob ymwelydd o'r tu allan am 14 diwrnod. Mae cartrefi plant wedi sôn am gyfnodau ailadroddus o ynysu sydd wedi effeithio ar gyswllt eu plant â'u teulu a gweithwyr proffesiynol.

### **Chwarae a hamdden (Erthyglau 2, 3, 24, 31)**

Ar draws y **Deyrnas Unedig**, ychwanegodd y mesurau a roddwyd ar waith oherwydd y pandemig at y rhwystrau i chwarae a hamdden plant. Effeithiwyd yn arbennig ar blant oedd heb le preifat i chwarae, fel gardd. Yn **Lloegr**, roedd y rheolau ynghylch hawl plant i chwarae fel rhan o "un awr o ymarfer corff" yn aneglur. Roedd mynediad at fannau gwyrdd cyhoeddus i chwarae yn gyfyngedig, yn enwedig mewn ardaloedd trefol tlotach, ac roedd rhai parciau ar gau.<sup>34</sup> Roedd wyth y cant o blant heb fynediad at ardd preifat, ac roedd hynny'n codi i 22% yn achos plant BAME.<sup>35</sup> **Ar draws y Deyrnas Unedig**, nid oedd hawl gan blant i gymysgu gydag aelwydydd eraill, ac roedd cyfleusterau chwarae a hamdden ar gau. Mae plant a phobl ifanc wedi tynnu sylw at yr anghysondebau ynghylch y rheolau a cholli manau chwarae rhydd.

Dylai'r Parti Gwladol fabwysiadu ymateb effeithiol, seiliedig ar hawliau plant i argyfyngau, sy'n diogelu ac o fudd i'r rhai yn y sefyllfaoedd mwyaf bregus, ac sy'n cynnwys ymatebion wedi'u targedu ar gyfer y grwpiau hynny. Dylai'r llywodraeth ystyried y gefnogaeth y bydd ar blant y mae tloedi wedi effeithio arnynt ei hangen wedi'r pandemig.

### **Cwestiynau ar gyfer y Parti Gwladol**

- **Gofynnir i chi amlinellu'r holl ddeddfwriaeth frys sy'n effeithio ar hawliau plant a grëwyd ers dechrau'r pandemig, y rhesymeg ar ei chyfer, a'r prosesau a ddilynwyd wrth ei datblygu i asesu'r effaith ar hawliau plant. Gofynnir i chi nodi pa ddeddfwriaeth sy'n dal yn ei lle, y rhesymau am hynny, a'r cynllun ar gyfer ei dirymu.**
- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch cynlluniau i fonitro'r sefyllfa ar gyfer plant, asesu effaith y pandemig ar fywydau plant, gan gynnwys CRIEs, a mesurau i roi sylw i'r holl effeithiau niweidiol sydd wedi effeithio ar hawliau plant, gan gynnwys pecyn adfer cynhwysfawr ar gyfer plant.**

<sup>33</sup> CCE, 2020, *Briefing: Inpatient Mental Health Wards during Covid-19* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2020/10/cco-inpatient-mental-health-wards-during-covid-19.pdf> a CCE, 2020, *Childhood in the Time of Covid*.

<sup>34</sup> Lambeth Council, 2020, *Statement – Brockwell Park Temporary Closure* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://love.lambeth.gov.uk/lambeth-council-statement-brockwell-park-temporary-closure/>

<sup>35</sup> CCE, 2020, *How Lockdown has Affected Children's Lives at Home* [gwelwyd ar 09.12.20]. Ar gael o: <https://www.childrenscommissioner.gov.uk/2020/08/22/how-lockdown-has-affected-childrens-lives-at-home/>

- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn sicrhau safon ofynnol ar gyfer mynediad plant at ofal iechyd a'i fod yn cael ei ddarparu yn ystod argyfyngau yn y dyfodol?**
- **Sut bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r llywodraethau datganoledig yn ymateb i anghenion plant anabl yn ystod ac wedi'r pandemig hwn i sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth ym mhob deddfwriaeth, polisi ac arfer, gan gynnwys wrth ddychwelyd i'r ysgol?**
- **Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth ynghylch y mesurau i atal y bwlch anfantais rhag ehangu wedi i'r ysgolion gau ac yn sgîl 'colli dysgu' cysylltiedig â'r pandemig.**
- **Sut mae hawliau plant yn cael eu hystyried wrth ymadfer wedi COVID-19 a sut mae plant yn rhan o'r broses hon?**